CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, **Nos Lun 11eg o Ionawr 2021 am 6.30.y.h.** trwy gyfrwng TEAMS.

PRESENNOL : Cyng. Margaret Thomas - Cadeirydd
Cyng. Ieuan G. Davies
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Gwenan Ll. Evans
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Non W. Parry
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Terry Jones
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Richard Parry
Cyng. Christine Roberts.

HEFYD YN BRESENNOL : Cyng. Dylan Rees - Cynghorydd Sir
Mr. H. Rhys Parry - Clerc
Ms. Linda Powell - Cymhorthydd Clerigol.

20/054 YMDDIHEURIADAU : Cyng. Jamie Jones
Cyng. Bob Parry - Cynghorydd Sir.

20/055 DATGANIAD O DDIDDORDEB : Dim.

20/056 HEDDLU GOGLEDD CYMRU : Dim Cynrychiolwyr.
Cadeirydd yn adrodd fod dim materion yn ymwneud a'r Heddlu wedi eu hanfon i'r Swyddfa

20/057 I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 14.12.2020
Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych trwy'r Cofnodion uchod.
Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. Richard Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

20/058 I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 14.12.2020
Cadeirydd yn datgan, os bu unrhyw gwestiynau yn codi o'r Cofnodion uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa, o flaen y Cyfarfod, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS.
Clerc yn cadarnhau fod dim ymholiadau/cwestiynau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod.

20/059 CYNLLUNIO

1 I DDERBYN PENDERFYNIADAU AELODAU'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO AR YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO – RHAGFYR 2020
Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan ei fod yn anfodlon gyda'r drefn bresennol o brosesu'r Ymgynghoriadau Cynllunio a bod angen edrych ar ail-gynnal yr Is-bwyllgor Cynllunio.
Cyng. Ieuan G. Davies, fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Cynllunio, yn ymateb fod y Swyddfa ac Aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio yn gwneud y gorau, o dan yr amgylchiadau anodd yma, i ymateb i'r Ymgynghoriadau Cynllunio yn fisol.
Cadeirydd yn cadarnhau fod y Ceisiadau Cynllunio yn cael eu derbyn Ar-lein gan Gyngor Sir Ynys Môn, cael eu hanfon ymlaen trwy'r Swyddfa at Aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio, i dderbyn unrhyw sylwadau. Yn dilyn y broses yma,bydd y sylwadau yn cael eu hanfon ymlaen i Adran Cynllunio'r Cyngor Sir.

PARHAD 20/059

Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan ei fod yn awyddus i'r Is-bwyllgorau gael eu hail-gynnal.

2 Ymgynghoriad Cyn Cyflwyno Cais C6 & C7 Parc Bryn Cefni

3 Penderfyniad Apel OP/2019/10 – Tir yn Ty'n Coed, Llangefni

Gohebiaeth ynglŷn â'r uchod wedi eu hanfon i'r Aelodau, er gwybodaeth - Dim Trafodaeth.

Cadeirydd yn datgan fod Cyng. John Lee yn cael trafferth cysylltu i Linc TEAMS ac ar hyn o bryd ddim yn gallu cymered rhan yn y Cyfarfod.

20/060 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBION Y MAER :

Cadeirydd yn datgan fod dim byd i'w ychwanegu ers Cyfarfod Mis Rhagfyr 2020, ond rhoi gwybod o'r canlynol :

Noson "Tree of Lights", Clwb Rotary 11.12.2020 – Achlysur yn cael eu ffrydio'n ddigidol, a'r Elw yn mynd tuag at Hosbis Dewi Sant yng Nghaergybi.

20/061 MATERION YN CODI GAN AELODAU :

Clerc yn cadarnhau fod dim materion wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa. **Derbyn.**

20/062 ADRODDIAD Y CLERC

1 Ehangu'r Fynwent, yn Llangefni - Clerc yn datgan i'r Aelodau, yn dilyn dwy flynedd o ymchwil a thrafod gyda Uwch Swyddogion Cyngor Sir Ynys Mon, yn anffodus does dim datblygiad pellach wedi eu wneud ar gyfer dod o hyd i dir addas i ehangu'r Fynwent yn Llangefni.

Clerc yn arwain yr Aelodau trwy Grynodeb dyddiedig 06.01.2021, yn amlinellu opsiynau'r Cyngor Tref, yn dilyn Cyfarfod ar 17.12.2020, gyda Uwch Swyddogion Cyngor Sir Ynys Mon.

- **Opsiynau : Gwneud Dim**
- **Cyflwyno Ail-Gais i Gyfoeth Naturiol Cymru**
- **Prynu Tir**

Clerc yn datgan pryder fod Plotiau gwag yn brin iawn yn y Fynwent ac bod angen symud ymlaen fel mater o frys. Clerc yn esbonio ymhellach fod gwneud dim am siomi trigolion y Dref.

Ail-gyflwyno Cais i Gyfoeth Naturiol Cymru i roi estyniad ar y Fynwent bresennol, gyda Cost Amcan Gyfrif rhwng £20,000.00 a £30,000.00 i baratoi'r tir, agor traen dyfn, a.y.b., wedyn efallai ennill tua 20 o Blotiau ychwanegol.

Prynu Tir ar gyfer Mynwent Newydd. Tir gyda photensial i greu Mynwent Newydd wedi dod i sylw Gwerthwyr Tai Lleol, gyda'r lleoliad o fewn datblygiad cyfrifoldebau'r Dref. I symud ymlaen efo'r opsiwn yma buasai angen gwneud cais i brynu'r tir drwy fenthyciad dros gyfnod o 50 mlynedd, gyda chostau ychwanegol a chostau datblygu. Hefyd edrych ar ddefnyddio Cytundeb Adran 137 gydag arian wrth gefn.

Manteision o brynu tir ydyw, wrth gwrs cael Mynwent Newydd i'r dref, sicrhau incwm wrth osod gweddill y tir ac ehangu Asedau'r Cyngor Tref a sicrhau bod tir yn ein meddiant ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth hir, bu mewnbwn gan yr Aelodau fel a ganlyn :

- Cyng. Christine Roberts – Holi am gostau'r benthyciad – Clerc yn ymateb;
- Cyng. Dylan Rees – Awgrymu Ymgynghori yn lleol cyn mynd ymlaen gyda'r Cais i brynu tir/neu rhentio tir;

- Cyng. Victor Hughes yn awgrymu ail-edrych ar y Cais i Cyfoeth Naturiol Cymru gyda ymgynghoriad pellach efo Cwmni e-geo Solutions a wnaeth Ymchwiliadau Daear yn y gorffennol;
- Cyng. Ieuan Davies yn datgan fod trigolion ardal Maes Hyfryd/Lon Newydd yn anfodlon newid y tir gwyrdd yma ac ail-leoli'r Maes Chwarae i ddarparu ar gyfer estyniad i'r Fynwent;
- Cyng. Non Parry yn cytuno gyda sylwadau Cyng. Ieuan Davies ac yn awyddus symud ymmlaen i brynu tir;
- Cyng. Arwel Mon Hughes yn cadarhnau fod y tir mewn sylw yn dir amaethyddol o safon uchel gyda photensial i'r dyfodol ac hefyd yn dir sych a fuasai yn addas iawn ar gyfer Mynwent Newydd i'r Dref;
- Cyng. J. Egryn Lewis yn cytuno mewn egwyddor i symud ymlaen gyda'r Cais a edrych ar gael Prisiad.

Cadeirydd yn ychwanegu fod brys i symud ymlaen a dyddiad cau i gyflwyno'r Tendr ydyw 10.02.2021.

Cyng. Dylan Rees yn gadael y Cyfarfod ac wedi gadael ei Adroddiad Misol yn y Bwlch CHAT.

Cyng. J. Huw Owen yn cynnig mai'r penderfyniad terfynol ydyw i roi hawl i'r Clerc i gyflwyno Cais Llywodraeth Cymru (Community and Town Councils Borrowing Approval Application Form), fel a ganlyn : " Please provide a copy of the document produced by the council when the decision was made to apply for a borrowing approval e.g. the minutes of the council meeting".
PENDERFYNWYD yn unfrydol, drwy bleidlais, i'r Clerc wneud Cais i Lywodraeth Cymru, i gymeradwyo benthyciad ariannol i sicrhau fod y Cyngor Tref yn gallu rhoi cynnig ar dir i greu Mynwent Newydd.

2 (a) **Cae Criced –** Clerc yn adrodd ar y diweddariad ei fod yn disgwyl am gadarnhad o gostau Bargyfreithiwr i lunio Cytundeb ar gyfer trosglwyddo'r tir uchod i'r Cyngor Tref. O dan yr amgylchiadau, gan fod y mater ddim yn symud ymlaen, mae Cyfreithiwr y Cyngor Tref wedi cynnig i Gyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr y byddai hi yn fodlon gwneud y gwaith uchod er mwyn dod a'r mater i ben. Dim cynnydd ar hyn o bryd. **Derbyn.**

Cadeirydd yn cydymdeimlo gyda Chyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr ar ei Brofedigaeth o golli ei Dad, Mr. Ieuan Redvers Jones. Cydymdeimladau Diffuant i'r Teulu hefyd.

(b) **Tir Tu Cefn i'r Llys –** Clerc yn ymddiheuro fod dim ymateb gan y Perchennog ers i Cyfreithiwr y Cyngor Tref anfon Cytundeb Drafft iddo i'w gymeradwyo, er mwyn gwblhau'r Pryniant. **Derbyn.**

20/063 ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL :

1 Cymdeithas Rhandir Llangefni - Cylchlythyr - Wedi ei anfon i'r Aelodau, er gwybodaeth - Dim Trafodaeth.

20/064 CYLLID :

1 I Dderbyn Mantolen Ariannol Rhagfyr 2020

Cyng. Christine Roberts yn tynnu sylw at Daliad 23.12.2020 - £202.13 - Vodafone - Ffonau Staff. Clerc yn esbonio mai blaendaliad oedd y cyfanswm uchod ar gyfer tair Ffon Symudol i'r Staff weithio o adref pan fo angen, o dan yr argyfwng COVID-19 ac hefyd i hwyluso'r gwaith o ddydd i ddydd.

PARHAD 20/064

Cyng. J. Egryn Lewis yn holi ynglŷn â Thaliad 02.12.2020 - £1,000.00 - Lwfans y Maer 2020. Cadeirydd yn cadarnhau fod y taliad yn cynnwys y flwyddyn hyd at Ebrill 2021.
Yn dilyn yr esboniadau uchod, Cyng. Ieuan G. Davies yn Cynnig a Cyng. Christine Roberts yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol uchod. **PENDERFYNWYD** derbyn mantolen Ariannol Mis Rhagfyr 2020.

2 **PRECEEPT 2021/2022**

Clerc yn adrodd bydd Cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol yn cael ei drefnu yn fuan oherwydd bod ffigwr y Precept 2021/2022 angen bod yn barod i'w gyflwyno i'r Cyfarfod Llawn ar 8fed o Chwefror 2021. Clerc a Cyng. Non Parry, fel Cadeirydd Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol, am wneud y trefniadau priodol.
Derbyn.

20/065 **ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyng. Dylan Rees, Cynghorydd Sir yn adrodd ar y canlynol :

1 Sefyllfa Covid-19 ar draws yr Ynys yn frawychus ac yn waeth nac erioed. Llythyr wedi mynd ar rieni disgyblion Ysgolion Gynradd ardal Llangefni heddiw i atgoffa nhw bod Hwbyn Ysgolion ond i blant gweithwyr allweddol. Mae niferoedd y plant yn yr Hwb ar hyn o bryd yn uwch na'r lockdown cynt.

2 Mi fydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod Dydd Llun nesaf i drafod Cyllideb 2021/22. Oherwydd mae'r setliad sydd wedi dod gan Gaerdydd yn hwyr dim ond bythefnos bydd ar gael i ymgynghori efo'r cyhoedd.

3 Eitem 20/059(3) - Penderfyniad Apêl Tir yn Ty'n Coed. Braf gweld Yr Arolygiaeth Cynllunio yn gwrthod yr Apel. Trigolion Ty'n Coed yn hapus iawn efo'r penderfyniad ac yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth gan y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir.

Cadwch yn saff pawb.

20/066 **GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD** : Dim.

20/067 **GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH**

1 **Un Llais Cymru –** Cadeirydd yn adrodd fod gwybodaeth yn ymwneud a Sesiynau Hyfforddiant wedi eu hanfon ymlaen. **Derbyn.**

2 **Materion Eraill -** **Derbyn.**

20/068 **I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y CADEIRYDD** : Dim.

Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau, oherwydd sefyllfa ddifrifol COVID-19, ac angen i pawb gadw'n ddiogel, mae Swyddfa'r Cyngor Tref wedi cau. Mae Staff y Swyddfa yn gweithio o adref am yr wythnosau bregus nesaf ac ar gael ar y Ffon gydag unrhyw fater brys.
Cadeirydd hefyd yn diolch yn fawr i'r Aelodau am eich amynedd trwy gysylltiad TEAMS heno a cadewch yn saff.

20/069 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nos Lun, 8fed o Chwefror 2021 am 6.30y.h. drwy gyfrwng TEAMS.

CYNG. MARGARET THOMAS - CADEIRYDD